



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adolygiad dilynol o godio clinigol – **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1166A2019-20



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Y sawl a gyflawnodd y gwaith oedd Sara Utley.

Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n dda iawn yn erbyn y targedau Cymru gyfan ar gyfer codio clinigol gyda data wedi'i godio o ansawdd da a dim ôl-groniad. Mae'n dechrau defnyddio data codio i gefnogi gwelliant ond mae angen iddo wneud mwy i roi rhai o'n hargymhellion blaenorol ar waith, yn enwedig gwella proffil codio, ymgysylltu clinigol â'r swyddogaeth codio a gwella ansawdd cofnodion meddygol.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Ein canfyddiadau	5
Mae perfformiad o ran codio clinigol wedi gwella ac mae cyflawnrwydd yn well nag unrhyw fwrdd iechyd arall yng Nghymru	6
Mae data clinigol wedi'i godio'n dechrau cael ei ddefnyddio i gefnogi gwelliant	8
Mae nifer o'n hargymhellion blaenorol wedi cael eu rhoi ar waith ond mae gofyn gwneud rhagor o waith i godi ymwybyddiaeth aelodau o'r bwrdd, cynnwys clinigwyr yn y broses a gwella cofnodion meddygol	9
Argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith	11

Atodiadau

Cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014	13
Canlyniadau'r arolwg o aelodau'r bwrdd	21
Ymateb Rheolwyr	23

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae codio clinigol yn golygu trosi gwybodaeth glinigol ysgrifenedig (megis diagnosis a thriniaeth claf) i fformat cod. Bydd codydd clinigol yn dadansoddi gwybodaeth am gyfnod o ofal claf ac yn aseinio codau safonedig a gydnabyddir yn rhyngwladol¹.
- 2 Mae data clinigol wedi'i godio o ansawdd da yn hanfodol i reoli ysbytai a gwasanaethau. Mae data wedi'i godio'n tanategu cryn dipyn o'r wybodaeth reoli o ddydd i ddydd a ddefnyddir yn y GIG ac fe'i defnyddir mewn nifer o wahanol systemau ac fe'i cyflwynir mewn gwahanol fformatau. Gellir ei ddefnyddio i roi cymorth i gynllunio gofal iechyd, dyrannu adnoddau, dadansoddi costau, cynnal asesiadau o effeithiolrwydd triniaeth a gall fod yn fan cychwyn amhrisiadwy ar gyfer nifer o archwiliadau clinigol.
- 3 Mae'n ofynnol i adrannau codio yng nghyrrff GIG Cymru gyrraedd safonau a bennir gan Lywodraeth Cymru o ran cyflawnrwydd a chywirdeb data wedi'i godio. Mae perfformiad yn erbyn y safonau hyn yn rhan o adroddiadau blynyddol cyrff y GIG ar ansawdd data a llywodraethu gwybodaeth.
- 4 Yn ystod 2014-15, fe adolygodd yr Archwilydd Cyffredinol y trefniadau codio clinigol yn holl gyrrff perthnasol y GIG yng Nghymru. Tynnodd y gwaith hwnnw sylw at nifer o feysydd i'w gwella megis cywirdeb codio, ansawdd cofnodion meddygol ac ymgysylltu rhwng codyddion, clinigwyr a staff cofnodion meddygol.
- 5 Canfuom fod cyrff y GIG yn rheolaidd yn ystyried bod codio clinigol yn rôl cefn swyddfa, a'i bod yn aml yn wir mai ychydig o gydnabyddiaeth oedd i'r wybodaeth a dealltwriaeth arbenigol yr oedd angen i staff fod yn meddu arnynt.
- 6 Ym mis Hydref 2014, fe gyhoeddod ni adroddiad ar ein canfyddiadau ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd). Roedd yr adroddiad yn dod i'r casgliad canlynol: 'Nid yw gwaith codio clinigol yn cael lle amlwg o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac, er bod trefniadau'n cefnogi cynhyrchu gwybodaeth amserol, mae ystod o wendidau yn y broses yn effeithio ar gywirdeb data clinigol wedi'i godio'. Yn fwy penodol, canfuom y canlynol:
 - er bod yna botensial i ehangu cwmpas y gweithgarwch, nid oedd y Bwrdd yn cydnabod gwerth codio i weithrediad effeithiol ei fusnes;
 - er bod y gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer codio gweithgarwch yn gweithio'n dda, roedd yna rai bylchau sylweddol yn y broses codio clinigol gyffredinol, yn enwedig mewn perthynas ag ymgysylltu clinigol a gwiriadau dilysu; ac
 - roedd data clinigol wedi'i godio yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn bodloni safonau Llywodraeth Cymru, ond roedd yna broblemau mewn perthynas â chywirdeb y codio, ac mae angen esbonio goblygiadau'r rhain yn glir i'r Bwrdd.

¹ Ar gyfer diagnosisau, y Dosbarthiad Clefydau Rhyngwladol, 10fed rhifyn (ICD-10), ac ar gyfer triniaeth, Dosbarthiad Ymyriadau a Thriniaethau OPCS fersiwn 4 (OPCS).

- 7 Fe wnaethom argymhellion a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:
- Codi proffil codio clinigol, a'r ymwybyddiaeth ohono, ledled y Bwrdd Iechyd;
 - Sicrhau bod prosesau ar waith i ddilysu ac adolygu cywirdeb codio yn rheolaidd. Dylai hyn gynnwys;
 - adolygu dyraniad adnoddau staff a rhaglenni gwaith a gwella gwaith tîm. Dylai hyn gynnwys; a
 - gwella ansawdd cofnodion meddygol ledled y Bwrdd Iechyd.
- 8 Fel rhan o gynllun archwilio'r Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys yn 2018, rydym wedi archwilio'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn yr [Adolygiad o Godio Clinigol yn 2014](#) ac unrhyw welliant mewn perfformiad o ran codio clinigol a ddeilliodd o hynny.
- 9 Wrth wneud y gwaith hwn, rydym wedi:
- adolygu dogfennaeth, gan gynnwys adroddiadau i'r Bwrdd a phwyllgorau;
 - gofyn i'r Bwrdd Iechyd hunanasesu ei gynnydd hyd yma;
 - dadansoddi data codio clinigol a anfonwyd at Lywodraeth Cymru;
 - ceisio barn aelodau'r bwrdd² ynglŷn â'u dealltwriaeth am godio clinigol; a hefyd
 - cyfweld â staff i drafod cynnydd, materion cyfredol a heriau yn y dyfodol.
- 10 Rydym yn crynhoi ein canfyddiadau yn yr adran ganlynol. Mae [Atodiad 1](#) yn darparu sylwebaeth benodol ar gynnydd yn erbyn pob un o'n hargymhellion blaenorol.

Ein canfyddiadau


- 11 Ein casgliad ar y cyfan yw bod y **Bwrdd Iechyd yn perfformio'n dda iawn yn erbyn y targedau Cymru gyfan ar gyfer codio clinigol gyda data wedi'i godio o ansawdd da a dim ôl-groniad. Mae'n dechrau defnyddio data codio i gefnogi gwelliant ond mae angen iddo wneud mwy i roi rhai o'n hargymhellion blaenorol ar waith, yn enwedig gwella proffil codio, ymgysylltu clinigol â'r swyddogaeth codio a gwella ansawdd cofnodion meddygol.**

² Cafodd nifer o gwestiynau a oedd yn ymwneud â chodio clinigol eu cynnwys yn yr arolwg o aelodau'r bwrdd a oedd yn rhan o'n gwaith Asesiad Strwythuredig yn 2018. Cafwyd cyfanswm o wyth ymateb allan o 19 o ymatebion posibl.

Mae perfformiad o ran codio clinigol wedi gwella ac mae cyflawnrwydd yn well nag unrhyw fwrdd iechyd arall yng Nghymru

- 12 Sefydliad comisiynu yw'r Bwrdd Iechyd i raddau helaeth ac mae'n darparu 25% o'r gwasanaethau ar gyfer cleifion gyda'r gweddill yn cael eu comisiynu gan gyrff eraill. Mae staff codio wedi'u lleoli'n unigol yn ysbytai Bronllys, Llandrindod, Llanidloes ac Ystradgynlais, ac mae pob un yn gyfrifol am godio'r holl weithgarwch sy'n digwydd yn eu priod ysbyty ac mewn ysbytai cyfagos.
- 13 Mae gan Lywodraeth Cymru ddau darged Haen 1 sy'n gysylltiedig â chodio y mae'n ofynnol i gyrff y GIG eu cyrraedd. Mae'r rhain yn ymwneud â chyflawnrwydd a chywirdeb.
- 14 Bob blwyddyn, mae cyrff y GIG yn anfon data at Lywodraeth Cymru sy'n dangos eu perfformiad yn erbyn y targed Haen 1 ar gyfer **cyflawnrwydd**. Y targed yw y dylai 95% o'r cyfnodau mewn ysbytai fod wedi'u codio o fewn un mis i ddyddiad terfyn y cyfnod. Mae angen i gyrff y GIG gyrraedd y targed hwn yn fisol yn hytrach nag ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, fel yn flaenorol. Dengys **Arddangosyn 1** fod cyflawnrwydd y Bwrdd Iechyd wedi gwella a'i fod yn gyson yn uchel, gyda dim ond un mis ar ddechrau 2017 pan ostyngodd islaw targed Llywodraeth Cymru.


Arddangosyn 1: y ganran a godiwyd o fewn un mis i ddyddiad terfyn y cyfnod



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata codio clinigol a gyflwynwyd gan gyrff iechyd mewn adroddiadau i Lywodraeth Cymru.

- 15 Fel rhan o'n gwaith maes, fe ofynnwn ni am y sefyllfa o ran yr ôl-groniad ym mis Mawrth 2018. Gan bod yr holl gyfnodau cleifion wedi'u codio o fewn un mis i gwblhau'r cyfnod, roedd y Bwrdd Iechyd yn y sefyllfa gadarnhaol o ran gallu adrodd nad oedd ôl-groniad o gwbl.
- 16 Bob blwyddyn, mae Tîm Safonau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gwirio **cywirdeb** codio clinigol. Maent yn gwneud hyn trwy adolygu sampl o gyfnodau wedi'u codio a gwirio'r wybodaeth yn erbyn tystiolaeth yng nghofnodion meddygol y cleifion i asesu cywirdeb. Mae disgwyl i gyrrff y GIG ddangos gwelliant blynyddol yn eu cywirdeb. Yn seiliedig ar yr adolygiad hwn, dengys **Arddangosyn 2** fod cywirdeb y Bwrdd Iechyd wedi gwella dros y pum mlynedd ddiwethaf, er y bu dirywiad bach yn 2018-19 ond gyda pherfformiad yn dal yn well na chyfartaledd Cymru.

Arddangosyn 2: cydymffurfiad canrannol â tharged Llywodraeth Cymru i gyrrff y GIG ddangos gwelliannau mewn cywirdeb codio clinigol dros amser



Ffynhonnell: Canlyniadau adolygiadau o gywirdeb codio clinigol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru 2014-2019

* Sylwer, oherwydd capasiti o fewn tîm codio clinigol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, bod adolygiad sengl o gywirdeb wedi cael ei gynnal yn ystod y cyfnodau 2015-16 a 2016-17.

Mae data clinigol wedi'i godio'n dechrau cael ei ddefnyddio i gefnogi gwelliant

- 17 Yn flaenorol, canfuom nad oedd pob un o gyrff y GIG yn deall pwysigrwydd ehangach codio clinigol i'w busnes a'u bod yn colli cyfleoedd i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn fwy helaeth. Er enghraifft, i gynllunio a monitro gwasanaethau, lle gellir defnyddio codio i:
- asesu nifer y cleifion sy'n dilyn llwybrau clinigol; a
 - darparu data cymharol ynghylch gweithgarwch i arfarnu cynhyrchiant, ansawdd a pherfformiad.
- 18 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio data wedi'i godio i lywio rhai elfennau o gynllunio gwasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro perfformiad codio sefydliadau darparu, sy'n gadarnhaol o safbwynt ariannol ond hefyd er mwyn deall goblygiadau o ran ansawdd a diogelwch. Mae hefyd wedi dechrau defnyddio'r data wedi'i godio mewn trafodaethau gyda sefydliadau darparu, gyda'r bwriad o sicrhau ansawdd ond hefyd i asesu'r potensial ar gyfer trosglwyddo gwasanaethau yn ôl i'r Bwrdd Iechyd.
- 19 Ers ein gwaith blaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ehangu'r gweithgaredd sy'n cael ei godio. Mae'r tîm wedi bod yn gweithio gydag arbenigwyr perthnasol i roi cod i'r clinigau ENT newydd sy'n cael eu harwain gan nyrsys a'r clinigau rometreg a arweinir gan nyrsys. Mae'r data â chodau yn darparu deallusrwydd defnyddiol i helpu i fonitro a chynllunio'r gwasanaethau hyn.
- 20 Fodd bynnag, nid yw manteision data wedi'i godio i glinigwyr wedi'u gwireddu eto. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogi aiddilysu meddygol a gallu adnabod tueddiadau mewn clefydau neu nifer yr achosion yn y boblogaeth. Disgrifiwyd ymgysylltiad clinigol fel yr un adnodd mwyaf gwerthfawr i adran godio. Mae'r brif ffynhonnell wybodaeth ar gyfer codyddion clinigol yn deillio o'r cofnod meddygol, a chlinigwyr sy'n gweithredu fel adnodd lleol i helpu codyddion i ddeall yr wybodaeth glinigol sy'n ymwneud â diagnosisu a thriniaeth. Mae'n bwysig felly bod clinigwyr a chodyddion yn ymgysylltu i wella'r trefniadau cadw cofnodion, cadarnhau codau a darparu arweinyddiaeth glinigol wrth nodi a chodio cyd-forbidrwydd. Canfu ein hadolygiad blaenorol nad oedd unrhyw ymgysylltiad clinigol â chodio clinigol. Mae ymgysylltiad clinigol yn parhau i fod yn her i'r codyddion yn y Bwrdd Iechyd gan bod y rhan fwyaf o glinigwyr sy'n darparu gofal yn yr ysbytai cymunedol naill ai'n peidio â chael eu cyflogi gan y Bwrdd Iechyd neu'n ymarferwyr cyffredinol (meddygon teulu). Yn anffodus, mae ymgysylltu â chlinigwyr ar godio yn parhau'n gyfyngedig gydag enghreifftiau o lond dwrn yn unig o sgysiau unigol gyda meddygon ymgynghorol wedi'u nodi.

Mae nifer o'n hargymhellion blaenorol wedi cael eu rhoi ar waith ond mae gofyn gwneud rhagor o waith i godi ymwybyddiaeth aelodau o'r bwrdd, cynnwys clinigwyr yn y broses a gwella cofnodion meddygol

21 Mae **Arddangosyn 3** yn crynhoi statws yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014.

Arddangosyn 3: statws yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014

Cyfanswm yr argymhellion	Wedi'u rhoi ar waith	Ar y gweill	Yn hwyr	Wedi'u disodli
21	8	8	4	1

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 22 Mae ein gwaith dilynol wedi canfod bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd boddhaol yn erbyn yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014.
- 23 Mae proffil codio clinigol yn y Bwrdd Iechyd wedi gwella. Mae adroddiadau rheolaidd ar berfformiad codio o ran cyflawnder a chywirdeb bellach yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd. Mae'r portffolio codio bellach yn gyfrifoldeb i'r Cyfarwyddwr Cyllid sy'n gweithredu fel hyrwyddwr codio clinigol yn y Bwrdd. Fodd bynnag, mae cyfle o hyd i ddarparu mwy o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i aelodau o'r bwrdd am godio, ei ddefnyddiau a'i bwysigrwydd. Ategir hyn gan ganfyddiadau ein harolwg o Aelodau'r Bwrdd lle nododd chwech o'r wyth a ymatebodd i'r arolwg y byddai'n ddefnyddiol iddynt gael rhagor o wybodaeth am godio clinigol ac i ba raddau y mae'n effeithio ar ansawdd yr wybodaeth am berfformiad. Mae canlyniadau llawn yr arolwg o Aelodau'r Bwrdd ar gael yn **Atodiad 2**.
- 24 Ychydig iawn o gynnydd a wnaed o ran gwella ymgysylltiad a hyfforddiant â staff meddygol. Mae llawer o staff meddygol y Bwrdd Iechyd yn ymweld o fannau eraill sy'n cyflwyno heriau; fodd bynnag, mae angen o hyd i'r Bwrdd Iechyd ymgysylltu â'i glinigwyr ar godio, gan bod ansawdd yr wybodaeth a gofnodir yn y cofnod meddygol gan glinigwyr yn hanfodol i sicrhau data wedi'i godio o safon uchel. Bydd y ffaith bod y codyddion clinigol yn fwy gweladwy yn Ysbyty Aberhonddu, lle nad oedd unrhyw bresenoldeb codio yn flaenorol er gwaethaf nifer y cleifion mewnol yn yr ysbyty, yn rhoi cyfle i gynyddu ymgysylltiad â staff meddygol gan y bydd timau codio yn fwy gweladwy iddynt.
- 25 Er mwyn sicrhau bod data clinigol wedi'i godio a gyflwynir yn ganolog o ansawdd da, mae'n bwysig bod gan fyrddau Iechyd fecanweithiau priodol ar waith i wirio a dilysu'r data wrth iddo gael ei brosesu. Canfuom yn flaenorol mai cyfyngedig oedd y drefn reolaidd o ddilysu gwaith codio, ond mae'r prosesau dilysu ar gyfer codio clinigol wedi gwella ers ein gwaith blaenorol. Mae gwiriadau dilysu rheolaidd yn cael eu cynnal a chaiff gwallau eu bwydo'n ôl fel mater o drefn i staff codio er mwyn hwyluso dysgu. Mae'r broses wedi cael ei hadlewyrchu ym mholisi codio clinigol y Bwrdd Iechyd. Mae ffurflenni dilysu yn eu lle ar gyfer llawdriniaethau a phrosesau rhyddhau i gynorthwyo trafodaethau gyda chlinigwyr, sydd wedi

digwydd ar sail unigol, er bod mwy i'w wneud i sicrhau bod clinigwyr yn rhan o'r prosesau dilysu fel mater o drefn. Mae defnyddio Medicode™³ i gefnogi dilysu amser real ar adeg cofnodi data wedi'i archwilio ond mae'r system yn ddrud. Mae'r Bwrdd Iechyd yn aros am ganlyniad trafodaethau ynglŷn â chaffael contract cenedlaethol ar gyfer y meddalwedd cyn bwrw ymlaen. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn yr archwiliadau codio clinigol cenedlaethol a gynhelir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru bob blwyddyn, ond nid oes rhaglen archwilio mewnlol ar waith ar gyfer codio. Yn rhannol, y rheswm dros hyn yw nad yw eu tîm yn cynnwys archwilydd codio clinigol cymwys.

- 26 Mae'r adnoddau a ddyrennir i waith codio wedi aros yn gyson ers ein hymweliad diwethaf, gyda'r pedwar aelod o staff wedi'u lleoli ar draws pedwar o ysbytai cymunedol y Bwrdd Iechyd. Mae'r goruchwilydd codio clinigol yn goruchwilio'r staff ym mhob un o'r pedwar safle ac mae bellach yn cael cymorth i ennill y cymhwyster codydd clinigol achrededig. Mae defnyddio technoleg wedi bod o gymorth i'r tîm ddod ynghyd yn amlach trwy gyfarfodydd rhithwir ar Skype, sydd wedi helpu i oresgyn yr heriau daearyddol sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Iechyd. Mae'r tîm bellach yn codio ystod ehangach o weithgarwch gan gynnwys datblygiadau newydd mewn gwasanaethau ym maes y glust, y trwyn a'r gwddf sy'n cefnogi defnydd mwy helaeth o wybodaeth wedi'i chodio at ddibenion cynllunio (fel a nodir ym [mharagraff 18](#)). Yn ein hadroddiad blaenorol, fe dynnon ni sylw at y ffaith nad oedd mynediad gan staff at rai systemau diagnostig. Er nad oedd yn ymarferol i staff fod â mynediad at RADIS a Telepath gan fod gwasanaethau radioleg a phatholeg yn cael eu darparu gan fyrddau iechyd cyfagos, roedd modd i'r Bwrdd Iechyd ddarparu mynediad at wasanaethau endosgopi. Mae hyn bellach wedi'i ddatrys a gall codyddion gael mynediad at systemau endosgopi i gefnogi eu gwaith. Nododd ein hadolygiad blaenorol yr angen i egluro cyfrifoldebau codio gweithgarwch iechyd meddwl o gofio bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar y pryd. Ers hynny mae'r gwasanaethau iechyd meddwl wedi'u trosglwyddo'n ôl i'r Bwrdd Iechyd, ac mae'r cyfrifoldebau ar gyfer codio bellach wedi'u halinio'n gywir â thîm codio'r Bwrdd Iechyd.
- 27 Yn ein hadolygiad blaenorol, canfuom fod ansawdd cofnodion meddygol yn y Bwrdd Iechyd yn amrywiol. Clywsom farn gymysg pan ofynasom a oes safonau ar waith i sicrhau bod cofnodion o ansawdd da yn cael eu cadw gyda staff meddygol yn dweud nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw safonau. Nid oes Rheolwr Cofnodion Meddygol o fewn y Bwrdd Iechyd, sy'n golygu bod y cyfrifoldeb am ansawdd cofnodion yn aneglur. Mae'r adolygiad mwyaf diweddar o gywirdeb gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn nodi bod ansawdd rhai o'r nodiadau achos papur yn parhau i achosi problemau i'r codyddion clinigol, ac nid yw argymhellion a wnaed yn flaenorol gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i wella ansawdd y cofnodion wedi cael eu rhoi ar waith. Ni chanfu ein hadolygiad blaenorol unrhyw

³ Meddalwedd trydydd parti sy'n cefnogi defnydd o un iaith glinigol ar gyfer iechyd trwy dderbyn termau clinigol a thrawsfapio i ICD10 i gydymffurfio â safonau yw Medicode™. Mae'r awgrymiadau a'r rhybuddion sy'n rhan o'r system yn cynorthwyo defnyddwyr i wella cywirdeb a chyflymder y data a gesglir.

hyfforddiant ffurfiol i staff meddygol ar gadw cofnodion na grwpiau staff ehangach megis clercod wardiau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw waith wedi cael ei wneud ers ein hadolygiad blaenorol i helpu i sicrhau gwelliannau o ran ansawdd cofnodion meddygol. Ceir safonau yn y Bwrdd Iechyd ar gyfer cofnodion meddygol, ond nid oes fforwm ar waith i drafod a gwella ansawdd cofnodion meddygol, ac ni chynhaliwyd unrhyw archwiliadau ers ein gwaith blaenorol i asesu ansawdd cofnodion meddygol.

- 28 Oherwydd gwasgariad daearyddol y Bwrdd Iechyd, mae cofnodion lluosog yn broblem. Mae cofnodion meddygol ar wahân yn cael eu creu ar gyfer pob ysbyty cymunedol y gall claf gael ei drin ynddo ym Mhowys. I'r rhan fwyaf o gleifion, bydd gofal ysbyty lleol yn cael ei ddarparu mewn un ysbyty; fodd bynnag, bydd cyfran o gleifion lle gall cofnodion lluosog fodoli ar eu cyfer. Nid yw'r cofnodion hyn yn cael eu cyfuno a gallai hynny effeithio ar ansawdd y codio yn ogystal â diogelwch cleifion ac ansawdd y gofal, gan y gall hanes meddygol blaenorol perthnasol gael ei hepgor os yw wedi'i gynnwys mewn cofnod meddygol ar wahân. Mae cleifion yn parhau i fod â chofnodion ar wahân ar gyfer pob ysbyty lle gallant dderbyn triniaeth, er bod modiwl newydd ar system gweinyddu cleifion y Bwrdd Iechyd wedi dechrau helpu i safoni niferoedd y cofnodion meddygol. Mae'r modiwl newydd yn helpu i wella'r broses o olrhain cofnodion meddygol hefyd, fel bod eu lleoliad ar unrhyw adeg benodol yn hysbys. Dylai hyn ei gwneud yn bosibl dod o hyd i gofnodion meddygol a'u trosglwyddo i safle'r ysbyty perthnasol er mwyn rhoi cymorth i weithredu un cofnod claf, yn hytrach na chreu nifer o gofnodion.

Argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith

- 29 Wrth wneud y gwaith hwn, rydym wedi gwneud un argymhelliad ychwanegol. Nodir hwn yn [Arddangosyn 4](#). Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol.

Arddangosyn 4: argymhellion newydd

Argymhellion 2019

Llwyth Gwaith Codio Clinigol

- A1 Trefnu bod cyfrifoldeb am godio gweithgarwch Ysbyty Coffa Rhyfel Sir Frycheiniog yn cael ei gylchdroi'n rheolaidd ymhlith y codyddion er mwyn sicrhau bod cysylltiad â'r gwaith, arbenigedd a gwybodaeth yn cael eu rhannu.

- 30 Caiff yr argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith eu nodi yn [Arddangosyn 5](#).

Arddangosyn 5: argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith

Argymhellion yn 2014 sydd heb gael eu cwblhau eto	
Proffil Codio Clinigol	
A1	Codi proffil codio clinigol, a'r ymwybyddiaeth ohono, ledled y Bwrdd Iechyd. Dylai hyn gynnwys: <ul style="list-style-type: none">a) darparu deunydd briffio i aelodau'r Bwrdd ar godio clinigol a goblygiadau data wedi'i godio gwael i wybodaeth reoli;b) darparu hyfforddiant ar rôl staff meddygol yn y broses codio clinigol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar feddygon teulu; a hefydc) rhoi rôl fwy gweledol i godydd clinigol yn Ysbyty Aberhonddu.
Cywirdeb Codio Clinigol	
A2	Sicrhau bod prosesau ar waith i ddilysu ac adolygu cywirdeb codio yn rheolaidd. Dylai hyn gynnwys: <ul style="list-style-type: none">b) cynnwys clinigwyr yn y gwaith o ddilysu data wedi'i godio;c) archwilio'r potensial i fabwysiadu'r system Medicode;d) gweithio gyda'r arweinydd archwilio codau clinigol cenedlaethol i ddatblygu rhaglen leol i archwilio codio; ace) diweddarau'r polisi codio clinigol i sicrhau bod prosesau dilysu ac archwilio'n cael eu dogfennu.
Cofnodion Meddygol	
A4	Gwella ansawdd cofnodion meddygol ledled y Bwrdd Iechyd. Dylai hyn gynnwys: <ul style="list-style-type: none">a) cynyddu pwysigrwydd cofnodion meddygol o safon ledled y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys staff meddygol sy'n ymweld â'r safle;b) rhoi trefniadau ar waith i leihau nifer y cofnodion lluosog am gleifion;c) gwella cydymffurfiaeth â'r system olrhain cofnodion meddygol;d) gwella'r ymgysylltu rhwng cofnodion meddygol a chodio clinigol; ace) mabwysiadu a gweithredu safonau ar gyfer cofnodion meddygol ledled y Bwrdd Iechyd, a gefnogir gan raglen o archwiliadau cofnodion meddygol.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

Atodiad 1

Cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014

Arddangosyn 6: Asesu cynnydd

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
Proffil Codio Clinigol			
A1 Codi proffil codio clinigol, a'r ymwybyddiaeth ohono, ledled y Bwrdd Iechyd. Dylai hyn gynnwys:			
a. darparu deunydd briffio i aelodau'r Bwrdd ar godio clinigol a goblygiadau data wedi'i godio gwael i wybodaeth reoli;	Ar y gweill	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2014, canfuom fod proffil codio clinigol ar lefel y Bwrdd yn isel. Nid oedd y Bwrdd wedi derbyn unrhyw bapurau yn ymwneud â chodio clinigol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae ein gwaith mwy diweddar wedi canfod, er na fu unrhyw bapurau penodol yn ymwneud â chodio clinigol, bod y Dangosfwrdd Perfformiad bellach yn cynnwys perfformiad o ran codio clinigol (gweler A1d). Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried sut y mae'n briffio aelodau'r Bwrdd ynghylch data wedi'i godio a'r defnydd ohono, gan bod chwech o'r wyth ymatebydd i'n harolwg wedi dweud yr hoffent gael rhagor o wybodaeth am godio clinigol ac i ba raddau y mae'n effeithio ar ansawdd gwybodaeth allweddol am berfformiad.
b. darparu hyfforddiant ar rôl staff meddygol yn y broses codio clinigol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar feddygon teulu;	Hwyr	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu hyfforddiant cyfyngedig ar rôl staff meddygol yn y broses codio clinigol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ymarferwyr cyffredinol. Y rheswm dros hyn yw bod y Bwrdd Iechyd o'r farn bod y ffaith nad yw'n ofynnol i staff meddygol fod yn rhan o'r broses codio clinigol yn golygu nad oes angen hyfforddiant arnynt. Fodd bynnag, mae arfer da yn dynodi mai ymgysylltu clinigol yw'r un adnodd mwyaf gwerthfawr i adran godio, gan mai'r wybodaeth a ddarperir gan staff meddygol yng nghofnodion y claf sy'n sail ar gyfer codio. Mae angen i'r staff meddygol ddeall gwaith y codyddion, a phwysigrwydd casglu gwybodaeth i gefnogi'r broses godio. Gallai hyn fod o fudd i wella ansawdd a chywirdeb data codio a gynhrychir a byddai hefyd yn cefnogi'r codyddion yn eu gweithgareddau.

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
Proffil Codio Clinigol			
A1 Codi proffil codio clinigol, a'r ymwybyddiaeth ohono, ledled y Bwrdd Iechyd. Dylai hyn gynnwys:			
c. rhoi rôl fwy gweledol i godydd clinigol yn Ysbyty Aberhonddu;	Ar y gweill	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Yn flaenorol, nid oedd unrhyw godyddion wedi'u lleoli yn Ysbyty Coffa Rhyfel Sir Frycheiniog, er mai hwn yw un o brif safleoedd y Bwrdd Iechyd. Bellach mae codydd yn ymweld ag Ysbyty Aberhonddu o leiaf yn fisol. Fodd bynnag, efallai yr hoffai'r Bwrdd Iechyd ystyried a yw hyn yn ddigon. Ysbyty Aberhonddu sydd â'r lefel uchaf o weithgarwch ar draws y Bwrdd Iechyd, yn bennaf oherwydd y gweithgarwch llawfeddygol a gyflawnir ar y safle hwn. Hefyd, yr un codydd sy'n tueddu i ymweld ag Aberhonddu i godio'r gweithgarwch hwn, ac er ein bod yn cydnabod y problemau teithio gallai fod yn ddoeth rhannu'r llwyth gwaith ymysg y tîm i sicrhau bod yr arbenigedd a'r wybodaeth yn cael eu rhannu ar draws yr holl godyddion.
d. adrodd ar berfformiad codio fel rhan o adroddiadau perfformiad integredig; ac	Wedi'i roi ar waith	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Yn flaenorol, nid oedd yr Adroddiad Perfformiad Integredig yn cynnwys perfformiad y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawnrwydd codio. Mae hyn bellach wedi gwella. Mae perfformiad o ran codio bellach yn fwy gweladwy o fewn y Bwrdd Iechyd, gyda chyflawnrwydd a chywirdeb gwaith codio bellach yn rhan o'r Dangosfwrdd Perfformiad yr adroddir wrth y Bwrdd arno. Mae gan y Bwrdd Iechyd ystod o Ddangosyddion Perfformiad Llywodraethu Gwybodaeth hefyd yr adroddir arnynt wrth y Pwyllgor Rheoli, Technoleg a Llywodraethu Gwybodaeth sy'n un o is-bwyllgorau'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn monitro perfformiad codio sefydliadau darparu, sy'n gam cadarnhaol o safbwynt ariannol ond hefyd o ran y goblygiadau ar gyfer ansawdd a diogelwch.
e. gwella llinellau adrodd ar gyfer materion yn ymwneud â chodio clinigol i'r Bwrdd.	Wedi'i roi ar waith	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Mae codio clinigol bellach yn gyfrifoldeb a ysgwyddir gan y Cyfarwyddwr Cyllid, trwy'r Pennaeth Gwybodaeth, a'r Rheolwr Ansawdd Gwybodaeth a Data. Mae hyn yn newid o'r trefniant blaenorol lle'r oedd codio clinigol yn gyfrifoldeb gweithredol i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Interim. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn gweld potensial codio ac mae wedi bod wrthi'n weithredol yn defnyddio codio mewn trafodaethau gyda sefydliadau darparu sydd wedi cael eu trafod yn y Bwrdd.

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
Cywirdeb Codio Clinigol			
A2 Sicrhau bod prosesau ar waith i ddilysu ac adolygu cywirdeb codio yn rheolaidd. Dylai hyn gynnwys:			
a. cyflwyno gwiriadau dilysu rheolaidd sy'n cynnwys adborth i'r tîm;	Wedi'i roi ar waith	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'i brosesau dilysu, trwy ddefnyddio adroddiadau monitro misol CHKS ⁴ i chwilio am broblemau codio cyffredin. Mae ffurflenni gwirio dilysu wedi cael eu cwblhau hefyd i godyddion eu defnyddio pan fo arnynt angen cwestiynu gwybodaeth gyda chlinigwyr ac mae adroddiadau gwallau codio yn cael eu cynhyrchu ac yn cael eu bwydo'n ôl i'r tîm cyfan. Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r prosesau dilysu a gyflawnir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ar ffurf gwallau system dilysu yn y ffynhonnell (VASS) a gynhyrchir yn fisol i ymchwilio i wallau a'u cywiro.
b. cynnwys clinigwyr yn y gwaith o ddilysu data wedi'i godio;	Hwyr	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno ffurflenni gwiriad dilysu i hwyluso trafodaethau gyda chlinigwyr ynghylch nodiadau ar lawdriniaethau a phrosesau rhyddhau, ac mae'r tîm codio wedi amlygu rhai sgysiau unigol gyda meddygon ymgynghorol lle mae ymholiadau dilysu wedi digwydd. Mae hyn yn gadarnhaol; fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth a ganfuom o gynnwys clinigwyr fel mater o drefn yn y broses o ddilysu data wedi'i godio.
c. archwilio'r potensial i fabwysiadu'r system Medicode;	Ar y gweill	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Mae defnyddio Medicode™ i gefnogi dilysu amser real ar adeg cofnodi data wedi'i archwilio ond mae'r system yn ddrud ac mae trafodaethau ynglŷn â chaffael contract cenedlaethol ar gyfer hyn yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Felly mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl i benderfyniad gael ei wneud ynglŷn â hyn cyn bwrw ymlaen. Byddai'r system codio electronig Medicode yn cynnwys cyfleuster dilysu mewnol yn ogystal â chanllawiau mewnol ar reolau dosbarthu codio sy'n ysgogi defnyddwyr i gydymffurfio â safonau codio cenedlaethol megis codau achosion allanol a chodau morffoleg ar adeg cofnodi data.

⁴ Gwasanaeth meincnodi ar gyfer ysbytai sy'n darparu offer i sicrhau gwiriadau cywirdeb ar ddata wedi'i godio yw CHKS.

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
Cywirdeb Codio Clinigol			
A2 Sicrhau bod prosesau ar waith i ddilysu ac adolygu cywirdeb codio yn rheolaidd. Dylai hyn gynnwys:			
d. gweithio gyda'r arweinydd archwilio codau clinigol cenedlaethol i ddatblygu rhaglen leol i archwilio codio; ac	Hwyr	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Mae archwiliadau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi canfod bod perfformiad wedi bod yn dda, gyda'r perfformiad uwchlaw cyfartaledd Cymru. Ond dim ond unwaith y flwyddyn y caiff archwiliadau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru eu cynnal a hynny gan ddefnyddio sampl gymharol fach o weithgarwch, ac mae angen o hyd am raglen leol i archwilio gwaith codio. Fodd bynnag, caiff hyn ei rwystro gan y diffyg archwilydd codio clinigol cymwysedig o fewn y tîm, er y gallai adnoddau archwilio codio clinigol gael eu rhannu gan fyrddau iechyd cyfagos.
e. diweddarau'r polisi codio clinigol i sicrhau bod prosesau dilysu ac archwilio'n cael eu dogfennu.	Ar y gweill	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Mae'r polisi codio wedi cael ei ddiweddarau ac mae'n cynnwys gwybodaeth am sicrhau ansawdd a dilysu systemau. Fodd bynnag, gallai'r wybodaeth hon fod yn fwy manwl, er enghraifft nid yw'n crybwyll y defnydd o CHKS gan y Bwrdd Iechyd.
Adnoddau Codio Clinigol			
A3 Adolygu dyraniad adnoddau staff a rhaglenni gwaith a gwella gwaith tîm. Dylai hyn gynnwys:			
a. helpu'r Goruchwyliwr Codio Clinigol i ennill y cymhwyster codydd clinigol achrededig fel y nodwyd yn y swydd-ddisgrifiad;	Wedi'i roi ar waith	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Mae'r adnoddau a ddyrennir i waith codio wedi aros yn gyson ers ein hymweliad diwethaf. Mae'r lefelau staffio wedi parhau'n ddigyfnewid gyda phedwar codydd mewn swyddi. Fodd bynnag, mae'r goruchwylydd codio'n cael ei gefnogi i ennill y cymhwyster codydd clinigol achrededig, sy'n gadarnhaol ac mae cymorth gan gymheiriaid wedi cael ei roi. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn rhoi cymorth i'r Bwrdd Iechyd hefyd. Mae mentor wedi cael ei neilltuo ac maent yn cwrdd yn fisol. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn dangos yr ymrwymiad i gynorthwyo'r goruchwylydd i ennill y cymhwyster.

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
Adnoddau Codio Clinigol			
R3 Adolygu dyraniad adnoddau staff a rhaglenni gwaith a gwella gwaith tîm. Dylai hyn gynnwys:			
b. ail-fantoli'r llwyth gwaith codio clinigol ar draws y tîm fel y gall y goruchwyliwr gyflawni'r dyletswyddau goruchwylio gofynnol;	Wedi'i roi ar waith	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Mae'r goruchwylydd wedi cymryd camau i ailddosbarthu ei llwyth gwaith trwy neilltuo amser penodol i'w llwyth gwaith codio ac yna i'w rôl oruchwyliol a'i gwneud yn bosibl cael cydbwysedd amser mwy effeithiol rhwng codio a'r dyletswyddau goruchwyliol gofynnol.
c. annog cyfarfodydd tîm er mwyn dod â'r staff codio at ei gilydd yn fwy rheolaidd;	Wedi'i roi ar waith	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Mae'r codyddion yn dal i fod wedi'u lleoli mewn safleoedd gwahanol ledled y Bwrdd Iechyd ac mae dod â hwy ynghyd yn gallu bod yn dreth ar adnoddau, o ystyried y pellter daearyddol y byddai angen i rai ohonynt ei deithio. Fodd bynnag, cyflwynwyd Skype yn ddiweddar i gefnogi gwaith tîm rhithwir sydd wedi bod yn gam cadarnhaol ac sy'n helpu i oresgyn y problemau a achosir gan leoliadau gwledig.
d. archwilio'r potensial i ehangu amrywiaeth y gweithgarwch sy'n cael ei godio, megis ymgynghoriadau cleifion allanol;	Wedi'i roi ar waith	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd y cyfle i ehangu ei weithgareddau codio, i gynnwys clinigau newydd megis clinig y glust, y trwyn a'r gwddf dan arweiniad nyrsys ac mae bellach yn codio mwy o arbenigeddau nag yn 2014. Mae hefyd yn codio triniaethau ar gyfer cleifion allanol a diagnosis cleifion allanol yn yr un meysydd. Mae hefyd yn codio meddygon teulu sy'n cyflawni triniaethau ac arbenigeddau dan arweiniad nyrsys.
e. sicrhau bod staff codio clinigol yn gallu cael mynediad at y system wybodaeth endosgopi; a hefyd	Wedi'i roi ar waith	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Mae problemau o ran mynediad at endosgopi wedi cael eu datrys ac mae'r Pennaeth Gwybodaeth yn cwrdd yn rheolaidd â rheolwyr busnes ac uwch aelodau o staff gwasanaethau cleifion i drafod materion gweithredol sy'n effeithio ar fynediad at gofnodion (papur ac electronig) gan godyddion.

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
Adnoddau Codio Clinigol			
A3 Adolygu dyraniad adnoddau staff a rhaglenni gwaith a gwella gwaith tîm. Dylai hyn gynnwys:			
f. egluro'r cyfrifoldeb dros godio gweithgarwch iechyd meddwl i sicrhau bod trefniadau cyfredol yn unol â chytundebau contract gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.	Wedi'i ddisodli	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Ers ein gwaith blaenorol, mae gwasanaethau iechyd meddwl wedi cael eu trosglwyddo'n ôl i'r Bwrdd Iechyd, sy'n golygu bod y cyfrifoldebau am godio'r gweithgarwch bellach wedi'u halinio'n gywir â thîm codio'r Bwrdd Iechyd. Felly nid yw'r argymhelliad hwn yn berthnasol mwyach.
Cofnodion Meddygol			
R4 Gwella ansawdd cofnodion meddygol ledled y Bwrdd Iechyd. Dylai hyn gynnwys:			
a. cynyddu pwysigrwydd cofnodion meddygol o safon ledled y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys staff meddygol sy'n ymweld â'r safle;	Ar y gweill	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2014, fe adroddon ni fod ansawdd cofnodion meddygol yn y Bwrdd Iechyd yn amrywiol. Clywsom farn gymysg wrth ofyn a oedd safonau yn eu lle i sicrhau trefniadau cadw cofnodion o ansawdd da. Ers ein hadolygiad, ymddengys na fu newid yn y darlun hwn ac nid ydym yn awyddus o unrhyw waith i godi safonau cofnodion meddygol.

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
Cofnodion Meddygol			
A4 Gwella ansawdd cofnodion meddygol ledled y Bwrdd lechyd. Dylai hyn gynnwys:			
b. rhoi trefniadau ar waith i leihau nifer y cofnodion lluosog am gleifion;	Ar y gweill	Heb ei nodi gan y Bwrdd lechyd	<p>Mae gan y Bwrdd lechyd broblemau o hyd gyda niferoedd lluosog o nodiadau achosion ledled safleoedd y Bwrdd lechyd. Mae hyn yn effeithio ar godio am ei bod yn anodd gweld gofal claf yn ei gyfanrwydd mewn un lle.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi dechrau gwaith yn ddiweddar i roi modiwl newydd o System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) ar waith. Bydd y modiwl hwn (olrhain gwybodaeth) yn ei gwneud yn bosibl safoni'r drefn o rifo nodiadau achosion, y mae'r Bwrdd lechyd yn gobeithio y bydd yn gam cyntaf i fynd i'r afael â nodiadau achosion lluosog. Bydd y modiwl hefyd yn rhoi cymorth i olrhain nodiadau achosion i gynorthwyo staff i allu dod o hyd i nodiadau achosion.</p>
c. gwella cydymffurfiaeth â'r system olrhain cofnodion meddygol;	Ar y gweill	Heb ei nodi gan y Bwrdd lechyd	Ym mis Awst 2018, lanswyd modiwl newydd o'r system gweinyddu cleifion (olrhain gwybodaeth), a'i nod yw gallu olrhain cofnodion meddygol ledled holl safleoedd ysbytai'r Bwrdd lechyd a hefyd safoni'r drefn o rifo cofnodion meddygol ledled y Bwrdd lechyd. Mae is-grŵp wedi cael ei sefydlu i ganolbwyntio ar roi'r prosiect hwn ar waith.
d. gwella'r ymgysylltu rhwng cofnodion meddygol a chodio clinigol; ac	Ar y gweill	Heb ei nodi gan y Bwrdd lechyd	Mae'r Bwrdd lechyd wedi sefydlu grŵp hyrwyddwyr gwybodaeth a gefnogir gan y Pennaeth Gwybodaeth ac sydd wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar roi'r modiwl 'olrhain gwybodaeth' ar waith. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth o ymgysylltu gwell rhwng cofnodion meddygol a chodio clinigol sy'n canolbwyntio ar gynnwys ac ansawdd cofnodion iechyd.

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
Cofnodion Meddygol			
A4 Gwella ansawdd cofnodion meddygol ledled y Bwrdd Iechyd. Dylai hyn gynnwys:			
e. mabwysiadu a gweithredu safonau ar gyfer cofnodion meddygol ledled y Bwrdd Iechyd, a gefnogir gan raglen o archwiliadau cofnodion meddygol.	Hwyr	Heb ei nodi gan y Bwrdd Iechyd	Nid oes tystiolaeth o unrhyw gynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn. Nid oes fforwm cofnodion meddygol ac nid oes unrhyw dystiolaeth o archwiliadau o gofnodion meddygol.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Atodiad 2

Canlyniadau'r arolwg o aelodau'r bwrdd

Cafwyd ymatebion gan wyth o aelodau'r bwrdd yn y Bwrdd Iechyd.
Ceir dadansoddiad o'r ymatebion isod.

Arddangosyn 7: cyfradd bodlonrwydd ar agweddau ar godio

	Pa mor fodlon ydych chi ar yr wybodaeth yr ydych yn ei chael am gadernid trefniadau codio clinigol yn eich sefydliad?		Pa mor fodlon ydych chi bod eich sefydliad yn gwneud digon i sicrhau bod trefniadau codio clinigol yn gadarn?	
	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan
Cwbl fodlon	1	6	1	5
Bodlon	4	34	6	40
Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	3	46	1	46
Anfodlon	–	10	–	4
Cwbl anfodlon	–	–	–	1
Cyfanswm	8	96	20	96

Arddangosyn 8: cyfradd ymwybyddiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar gadernid codio clinigol

	Pa mor ymwybodol ydych chi o'r ffactorau a all effeithio ar gadernid trefniadau codio clinigol yn eich sefydliad?	
	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan
Ymwybyddiaeth lawn	2	26
Peth ymwybyddiaeth	6	50
Ymwybyddiaeth gyfyngedig	–	17
Dim ymwybyddiaeth	–	3
Cyfanswm	8	96

Arddangosyn 9: Iefel pryder a defnyddiadwyedd hyfforddiant

	Ydych chi'n pryderu bod eich sefydliad yn rhy barod i briodoli tanberfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol i broblemau gyda chodio clinigol?		Ydych chi'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am godio clinigol ac i ba raddau y mae'n effeithio ar ansawdd gwybodaeth allweddol am berfformiad?	
	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan
Ydw	–	8	6	77
Nac ydw	7	84	2	19
Cyfanswm	7	92	8	96

Arddangosyn 10: Sylwadau ychwanegol a ddarparwyd gan ymatebwyr o'r Bwrdd Iechyd

- Adroddir ar godio clinigol wrth y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth ac rydym yn cael sicrwydd ynghylch perfformiad mewn rhai meysydd – trwy'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu sy'n dda ar y cyfan. Os ceir tanberfformiad yn ein gwasanaethau darparwyr neu wasanaethau a gomisiynwyd, rydym yn ystyried ac yn ymchwilio i weld a yw'r broblem yn ymwneud â gwallau codio clinigol i ddiystyru hynny fel posibilrwydd, ond rydym yn cael trafodaethau gonest gyda Chyfarwyddwyr ac aelodau Annibynnol ynglŷn â'r hyn y mae'r data'n ei ddweud wrthym. Byddai'n ddefnyddiol pe gallwn gael dealltwriaeth well am godio clinigol ac i ba raddau y mae'n effeithio ar ansawdd gwybodaeth.
- Mae natur ein sefydliad yn golygu bod codio clinigol mewn sefydliadau eraill yr ydym yn comisiynu gwasanaethau ganddynt yn bwysig, gan gynnwys rhannu gwybodaeth am ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau. Mae'r buddsoddiad mewn systemau megis CHKS o gymorth enfawr i gymharu un sefydliad gydag un arall gan helpu i adnabod problemau a chyfluoedd.

Atodiad 3

Ymateb rheolwyr

Arddangosyn 10: ymateb rheolwyr

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/ budd a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ie/na)	Wedi'i dderbyn (do/nadd o)	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A1	Trefnu bod cyfrifoldeb am godio gweithgarwch Ysbyty Coffa Rhyfel Sir Frycheiniog yn cael ei gylchdroi'n rheolaidd ymhlith y codyddion er mwyn sicrhau bod cysylltiad â'r gwaith, arbenigedd a gwybodaeth yn cael eu rhannu.	Rhannu gwybodaeth a phrofiad ymysg y tîm	Ie	Do	Cais ffurfiol i'r adran drafnidiaeth bod nodiadau'n cael eu danfon o Ysbyty CRhSF i godydd Ystradgynlais yn wythnosol. Codydd o Lanidloes i weithio yn Ysbyty CRhSF o leiaf un diwrnod bob dau fis ond hefyd ar sail adhoc pan gyfyd yr angen. Bydd y codydd sy'n gweithio ym Mronllys fel prif godydd Ysbyty CRhSF yn ymweld yn rheolaidd pan fo angen i nodiadau aros ar y safle. Mae nodiadau eisoes yn cael eu casglu'n rheolaidd o Ysbyty CRhSF i Fronllys. Mae hyn yn sicrhau bod y tri chodydd yn codio gweithgarwch Ysbyty CRhSF yn rheolaidd.	Ebrill 2019	Michelle Williams (Pennaeth Gwybodaeth)

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru